Adroddiad Cyfarfod 10:04:19
Trefnu Blodau gyda Cecile Roberts

Blodau! Blodau! Blodau! Roedd festri Capel Cysegr yn llawn blodau nos Fercher Ebrill 10fed A'r rheswm oedd bod trysorydd y gangen, Cecile Roberts sy'n ardderchog am drafod arian ond hefyd yn ardderchog am drefnu blodau am ddysgu grefft i ninnau.

Roedd pawb wedi dod â'u blodau eu hunain ynghyd â sisyrnau addas a buom wrthi'n ddyfal ac yn wir llwyddo i greu addurniadau deniadol, gydag ambell i gampwaith erbyn y diwedd.

Roedd pawb mewn hwyliau mor dda fel na fu trafferth o gwbwl ethol is-swyddogion ar gyfer 2019/20. Yr is-lywydd fydd Anita Owen, Eleri Warrington yn is-drysorydd a Rhian Hughes yn gyd is-ysgrifennydd gydag aelod o'r pwyllgor.

Dydd Sadwrn Mehefin y 15fed bydd ein gwibdaith pentymor i Ysbyty Ifan. Enwau ac arian yn ein cyfarfod mis Mai os gwelwch yn dda. Hefyd bydd croeso i unrhyw un nad yw'n aelod ymuno efo ni. Cost y bwffe fydd £15.95.